



Gwasanaethau
Rheoliadol
a Rennir

Rheoli Llygredd ar Safleoedd Adeiladu **Llawlyfr**

Ebrill 2018



CYNNWYS

| | |
|---|----|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Amddiffyn y cyhoedd a'r adeilad | 1 |
| 3. Oriau gwaith | 2 |
| 4. Deddf Rheoli Llygredd 1974 | 3 |
| Adrannau 60 a 61 | |
| 5. Sŵn a Dirgrynu | 3 |
| 6. Lluch a Llygredd Awyr | 5 |
| 7. Gwastraff | 8 |
| 8. Llygru'r Tir | 9 |
| 9. Gwybodaeth Cyswllt | 10 |
| Atodiadau | |
| A. Adran 61 Arweiniad ar gwblhau cais am ganiatâd ymlaen llaw Adran 61 | 11 |
| B. Ffurflen gais ar gyfer caniatâd Adran 61 | 13 |

1. Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn wasanaeth cydweithredol newydd ac arloesol a ffurfiwyd rhwng Cyngorau Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ar 1 Mai 2015. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth hollol integredig o dan strwythur rheoli sengl ar gyfer swyddogaethau safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu ac mae trefniadau llywodraethu a rennir yn sicrhau ymglymiad llawn gan aelodau etholedig.

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cydnabod y cydbwysedd rhwng yr angen am ddatblygiadau newydd ar draws y tri Chyngor, gan sicrhau ar yr un pryd bod ei breswylwyr a'i fusnesau yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu amgylcheddol yn ystod adeiladu datblygiadau mawr a mân

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi arweiniad i gontractwyr er mwyn sicrhau lleihau aflonyddwch gan sŵn, dirgrynu, llwch a mwg sy'n codi o gamau gwahanol o adeiladu, heb gyfyngu ar gontractwyr yn ddiangen neu'n rhy feichus. Bwriedir annog contractwyr i gyfathrebu gyda GRhR yn y camau cynnar, darparu gwybodaeth, rhoi arweiniad a/neu eglurhad ar ddulliau gwaith a chynorthwyo datblygwyr i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Dylai contractwyr gydymffurfio â darpariaethau: -

- Deddf Rheoli Llygredd 1974
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Awyr Glân 1993
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru) 2006
- Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer)(Cymru) 2009
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch mewn Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
- Deddf Adeiladu 1984

Ni fwriedir iddo ddisodli unrhyw arweiniad cyhoeddedig arall.

Er y disgwylir i gontractwyr fabwysiadu darpariaethau llawn y Llawlyfr, efallai na fydd yn briodol cymhwyso'r holl ddarpariaethau i ddatblygiadau llai. Fodd bynnag, os yw contractwyr yn dymuno gwyro oddi wrth y darpariaethau hyn, dylent ymgynghori â Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, cyn iddynt gael eu gweithredu, gan roi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl.

Diffiniad – Mae'r term 'Gwaith Adeiladu' yn berthnasol i weithgareddau ar y safle, paratoi, dymchwel, cloddio, gwaith twnelu, gweithrediadau adeiladu, cludo deunyddiau ac ysbwyl i safle ac oddi arno.

2. Amddiffyn y Cyhoedd a'r Adeilad

Dylai contractwyr sicrhau y cymerir mesurau i:

- ✓ Amddiffyn cymunedau lleol ac aelodau'r cyhoedd rhag niwsans neu niwed, ac
- ✓ Amddiffyn adeiladau rhag difrod ffisegol o ganlyniad i ddirgrynu.

Am beth mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn gyfrifol?

Mae'r HSE yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar ddymchwel a safleoedd adeiladu. Maent hefyd yn ymdrin â deunyddiau peryglus megis asbestos.

I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am weithio gydag asbestos, cysylltwch â'r HSE ar: [0300 003 1747](tel:03000031747).

I gael cyngor mewn perthynas â gwaredu asbestos, cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru ar: [0300 065 3000](tel:03000653000).

Strwythurau Peryglus

Mae'r Adran Rheoli Adeiladu yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelwch mewn perthynas â strwythurau peryglus. Maent hefyd yn argymhell y dylai pob safle gael ei ddiogelu'n ddigonol yn erbyn mynediad anghyfreithlon. Mae'n bosibl y bydd perchennog y safle yn atebol ar gyfer costau mewn perthynas â'r gwasanaeth, lle y mae angen gwaith er mwyn atal niwed i'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ewch i Dudalen 13, Adran 9, lle y mae rhestr o wybodaeth cyswllt.

3. Oriau Gwaith

Lle y mae ardaloedd adeiledig o breswylwyr yn lleoliad y safle, y mae'n debygol yr effeithia sŵn gweithgarwch adeiladu arnynt yn niweidiol, sy'n cynnwys cerbydau a pheiriannau sy'n cyrraedd y safle a'i adael, dylid cadw at yr oriau canlynol:

Yr oriau a ganiateir ar gyfer gwaith swmllyd yw:

Llun - Gwen 08:00 - 18:00 hrs

Dydd Sadwrn 08:00 - 13:00 hrs

Dydd Sul a Gwyliau Banc - DIM gweithgareddau swmllyd.

Cyn i unrhyw waith ddechrau, mae'n arfer da i contractwyr roi gwybod i breswylwyr pob eiddo y gellid effeithio arno gan sŵn, llwch neu ddirgrynu sy'n codi o natur y gwaith adeiladu, yr oriau gwaith arfaethedig a'u hyd disgwylidig.

Dylai contractwyr gynnwys enw a rhif ffôn prif gyswllt o fewn sefydliad y contractwr a all roi rhagor o wybodaeth ac ymdrin ag unrhyw gwynion neu argyfyngau a allai godi unrhyw bryd.

Mae Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (GRhR) yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau lle na ellir cadw at y cyfyngiad ar oriau gwaith.

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i'r contractwr, o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 i gyfiawnhau yn llwyr unrhyw wyro o'r Llawlyfr hwn a darparu cyfiawnhad ysgrifenedig i GRhR o leiaf 28 diwrnod cyn dechrau unrhyw waith. Gellir gwneud hyn drwy e-bost neu drwy gais adran 61 os yw'n gymwys.

Ceir ffurflen gais cydsynio Adran 61 a chanllaw cam wrth gam ar lenwi'r cais hwn yn Atodiadau A a B.

4. Deddf Rheoli Llygredd 1974

Adrannau 61 a 60

Mae'n berthnasol i: godi, adeiladu, newid, atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau, strwythurau neu ffyrdd. Torri, agor neu dyllu o dan unrhyw ffordd neu dir cyfagos mewn cysylltiad ag adeiladu, archwilio, cynnal a chadw neu ddileu gwaith. Gwaith dymchwel neu ddreillio ac unrhyw waith adeiladau peirianeg.

Adran 61 – Cydsyniad ymlaen llaw ar gyfer gwaith ar Safleoedd Adeiladu.

Dylai contractwyr ddangos y cymerwyd pob cam rhesymol i leihau aflonyddu oherwydd y gwaith. Lle y bydd yn briodol, dylid ystyried:

- Sgrinio peiriannau swllyd er mwyn lleihau lefelau sŵn lle y cânt eu defnyddio;
- Defnyddio dulliau gwaith amgen;
- 'Adegau Gorffwys' a hysbysebwr pan ddeuir â gweithrediadau swllyd i ben dros dro;
- Cynnig llety dros dro i breswylwyr sy'n debygol o gael profiad o aflonyddu difrifol a pharhaus

Gall yr Awdurdod Lleol;

- Atodi amodau i gydsyniad; a
- Chyfyngu ar gydsyniad neu ei amodi er mwyn caniatáu unrhyw newidiadau o ran amgylchiadau; a
- Chyfyngu ar hyd cydsyniad

Os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod y cais yn cynnwys digon o wybodaeth ac os caiff y gwaith ei wneud yn unol â'r cais, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno hysbysiad adran 60.

Adran 60 – Rheoli Sŵn ar Safleoedd Adeiladu.

Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno rhybudd o dan adran 60 Deddf Rheoli Llygredd 1974, a fydd yn gorfodi gofynion megis cyfyngu ar y ffordd y caiff y gwaith ei wneud neu ei wahardd a/neu nodi'r oriau, sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar safon gwaith person yn yr ardal.

- Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn ystyried sicrhau y caiff y modd ymarferol gorau (BPM) ei ddefnyddio gan contractwyr er mwyn lleihau sŵn.
- Caiff y rhybudd ei gyflwyno i'r person y mae'n ymddangos i'r Awdurdod Lleol ei fod yn gwneud y gwaith, neu'n mynd i'w wneud, neu y mae'n ymddangos ei fod yn gyfrifol am wneud y gwaith hwn neu y mae ganddo reolaeth dros wneud y gwaith hwn.

Os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag Adran 60 ac Adran 61 o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, cysylltwch â ni ar [0300 123 6696](tel:03001236696).

5. Sŵn a Dirgrynu

Caiff peiriannau neu offer swllyd eu lleoli cyn belled â phosibl o adeiladau neu safleoedd sy'n sensitif i sŵn. Dylid rhoi a defnyddio rhwystrau yn effeithiol lle bynnag y bo'n ymarferol er mwyn lleihau'r sŵn sy'n cyrraedd adeiladau sy'n sensitif i sŵn, a chânt fod ar ffurf cytiau safle, parwydydd, byndiau pridd neu gaeadleoedd acwstig.

Dylid cadw at y darpariaethau hyn lle bynnag y bo'n ymarferol: -

1. Gosodir tawelyddion peipen fwg effeithiol ar gerbydau a pheiriannau mecanyddol a'u cynnal a'u cadw fel eu bod yn gweithio'n dda ac yn effeithlon. Dylid eu gweithredu mewn modd a fydd yn lleihau allyriadau sŵn Bydd y contractwr yn sicrhau y caiff yr holl beiriannau a'r offer eu cynnal a'u gadw'n dda, eu tawelu'n briodol a'u defnyddio'n unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr a BS 5228.
2. Dylai peiriannau a ddefnyddir yn ysbeidiol gael eu cau i lawr neu eu throtlo i lawr mor isel â phosibl pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
3. Dylid gosod gorchuddion acwstig sydd wedi'u leinio a'u selio'n dda ar gywasgyddion a dylid eu cadw ar gau pan fyddant yn cael eu defnyddio. Dylid gosod distewyddion neu dawelyddion o'r math a argymhellir gan y gweithgynhyrchwyr ar offer ergydol niwmatig.
4. Defnyddir offer sy'n torri concrit, gwaith briciau neu waith maen trwy blygu neu ffrwydro yn hytrach nag offer ergydol lle y bo'n ymarferol. Dylid osgoi defnyddio offer taro pan fo'r safle'n agos at adeiladau a feddiannir.
5. Pan yw'n ymarferol, caiff driliau cylchdro ac offer ffrwydro sy'n cael eu hactifadu gan bŵer hydrologig, cemegol neu drydanol i gloddio deunydd caled neu allwthiol.
6. Ni chaiff unrhyw ran o'r gwaith neu unrhyw waith cynnal a chadw ar beiriannau ei wneud mewn ffordd a fydd yn peri sŵn neu ddirgrynu diangen, heblaw yn achos argyfwng, pan fydd y gwaith yn hollol angenrheidiol er mwyn achub bywydau neu eiddo neu ddiogelwch y gwaith.
7. Caiff y peiriannau eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da fel y cedwir sŵn allanol gan ddirgrynu mecanyddol, crecian a gwichian mor isel â phosibl.

Dylid cymryd gofal i leihau sŵn wrth lwytho neu ddadlwytho cerbydau neu ddatgymalu sgaffaldau neu symud deunyddiau ayyb. Dylid rhoi cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod cerbydau a pheiriannau sy'n cyrraedd y safle a'i adael yn cydymffurfio ag oriau gwaith a ddatgenir.

Gosod pyst seiliau

Gwaith gosod pyst seiliau yw un o'r gweithgareddau adeiladu mwyaf ymwthiol a'r un sy'n cythruddo meddianwyr a phreswylwyr fwyaf. Dylid bob amser ystyried sensitifrwydd yr ardal i sŵn wrth bennu'r modd o osod pyst seiliau i'w ddefnyddio. Dylid ymgynghori â'r Timau Rheoli Adeiladu a Gwasanaethau Cymdogaethau yng Ngwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar y rhesymau dros y modd gosod pyst seiliau a ddewisir.

Dylid osgoi defnyddio morthwylion taro confensiynol ar gyfer gosod pyst seiliau dur a yrrir, lle bynnag y bo'n bosibl. Lle y bo'n ymarferol, caiff pyst seiliau wedi'u jacio neu rai ebill eu defnyddio yn hytrach na physt seiliau a yrrir gan ddefnyddio dulliau eraill. Gosodit unrhyw byst seiliau gan beiriannau sydd â system lleihau sŵn cydnabyddedig.

Pan fydd llygredd ar yr wyneb neu nwyon daear yn bresennol ar y safle, dylid mabwysiadau technegau gosod pyst seiliau priodol er mwyn atal niwed neu lygredd posibl neu sylweddol i dderbynyddion. (Gweler yr adran ar dir llygreddig.)

O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cyfyngu oriau gosod pyst seiliau ymhellach. [Os gosodir pyst seiliau, mae'n bwysig cysylltu â ni'n gyntaf i drafod hyn.](#)

Chwythellu Graean

Dylid cau'r ardal waith gan gynfasau er mwyn lleihau niwsans llwch oherwydd graean. Mae gofyn am wirio rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cynfasau'n parhau'n weithredol, yn gyfan ac wedi'u selio yn ystod y gweithrediad. Hefyd telir sylw i'r platfform gweithio er mwyn sicrhau ei fod wedi'i orchuddio neu ei selio'n briodol er mwyn cadw llwch i mewn.

Mae'n rhaid defnyddio graean nad yw'n silicaidd er mwyn osgoi difrod anwrthdroadwy hirdymor i'r ysgyfaint oherwydd llwch silica.

Caiff deunydd amddiffyn priodol ei ddarparu ar gyfer unrhyw strwythur sydd wedi'i beintio gyda phaent sy'n cynnwys plwm er mwyn atal rhoi gweithwyr neu'r cyhoedd i'r llwch a gynhyrchir.

Mewn achosion pan ddefnyddir dŵr ar gyfer glanhau a chwythellu ar raddfa eang, dylid dilyn gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae ragor o arweiniad a mesurau lliniaru yn gynwysedig yn:

BS5288, 'Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgrynu ar safleoedd adeiladau a rhai agored Rhan 1 a Rhan 2.

6. Llwch a Llygredd Awyr

Rheoli Ansawdd Awyr Lleol

Mae darpariaethau Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995 yn sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli ansawdd awyr, sy'n gofyn bod pob awdurdod lleol yng Nghymru, Yr Alban a Lloegr yn cynnal adolygiadau o ansawdd yr awyr lleol. Mae Adran 82(1) y Ddeddf yn gofyn bod yr adolygiadau hyn yn cynnwys asesiad o ansawdd presennol yr awyr yn yr ardal ac ansawdd yr awyr a ragwelir yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r amcanion ar gyfer ansawdd yr awyr sy'n gymwys i Rheoli Ansawdd Awyr yn Lleol ('LAQM') yng Nghymru wedi'u gosod yn Rheoliadau Ansawdd Awyr (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138) a Rheoliadau Ansawdd Awyr (Diwygio)(Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298). Pan fydd adolygiadau ansawdd awyr yn dangos na fydd amcanion ansawdd awyr yn cael eu bodloni o bosibl, mae gofyn i'r awdurdod lleol ddynodi Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr ('AQMA'). Wedyn mae'n rhaid cymryd camau ar lefel leol i sicrhau bod ansawdd yr awyr yn yr ardal yn gwella. Adwaenir y broses hon fel Rheoli Ansawdd yr Awyr yn Lleol.

Deddfwriaeth, Effeithiau ac Achosion

Yr effeithiau o ran ansawdd yr awyr sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu a dymchwel a allai effeithio ar dderbynyddion sensitif yw;

- Dyddodi llwch, sy'n arwain at faeddu arwynebau;
- Plu llwch gweladwy, sy'n dystiolaeth o allyriadau llwch;
- Cynodiadau PM10 uwch, o ganlyniad i weithgareddau cynhyrchu llwch ar y safle; a
- Chynnydd mewn crynodiadau o ronynnau yn yr awyr a nitrogen deuocsid oherwydd allyriadau peipen fwg o gerbydau ac offer disel a ddefnyddir ar y safle (peiriant nad yw'n symud ar y ffordd) a cherbydau sy'n cael mynediad i'r safle.

Diffinnir derbynydd fel - Lleoliad y gellir effeithio arno gan allyriadau llwch yn ystod dymchwel ac adeiladu. Mae derbynyddion dynol yn cynnwys lleoliadau lle mae pobl yn treulio amser a lle y gallai llwch effeithio arno. Mae derbynyddion ecolegol yn gynefinoedd a allai fod yn sensitif i lwch.

Mae'r risg o allyriadau llwch o safle dymchwel/adeiladau yn achosi colli amwynder a/neu effeithiau iechyd neu ecolegol yn gysylltiedig ag;

- Ymgymryd â gweithgareddau (dymchwel, nifer o gerbydau a pheiriannau ayyb.);
- Hyd y gweithgareddau hyn;
- Maint y safle;
- Amodau tywydd (cyflymder a chyfeiriad y gwynt a glaw);
- Agosrwydd y derbynyddion at y gweithgareddau;
- Digonolrwydd y mesurau lliniaru a gymhwysir i leihau neu ddileu llwch; a
- Sensitifrwydd y derbynyddion i lwch.

Mae'n rhaid i Fodd Ymarferol Gorau (BPM) gael eu cymryd i atal llwch rhag achosi niwsans statudol a dyletswydd y contractwr yw dangos y cafodd pob cam adferol rhesymol ei weithredu. Pan fo llwch a gynhyrchir gan waith adeiladu yn peri niwsans statudol neu pa fo'n debygol y bydd niwsans, mae gan GRhR ddyletswydd i gyflwyno hysbysiad gostegu o dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gofyn am ostegu'r niwsans neu atal y tebygolrwydd y bydd yn digwydd neu'n digwydd eto. Os torrir yr hysbysiad, gall Llys yr Ynadon orfodi dirwy o unrhyw swm ar gollfarn ddiannod.


Asesiad o Lwch

Fel rhan o'r broses gynllunio, mae'n ofyniad y caiff ystyriaeth a gweithdrefnau cywir eu mabwysiadu er mwyn meintioli'r effaith niweidiol bosibl ar dderbynyddion sensitif oherwydd allyriadau sy'n deillio o waith a wneir ar safle datblygu. Gan ddefnyddio'r canllaw ar arfer gorau, IAQM '[Guidance on the assessment of dust from demolition and construction](#)' (2014), bydd y contractwr yn meintioli'r angen am asesiad llwch manwl. Bydd yr asesiad llwch yn asesu maint y risg a achosir gan weithgareddau dymchwel ac adeiladu ar safle datblygu, ar sail graddfa a natur y gweithgarwch, a sensitifrwydd ac agosrwydd derbynyddion sy'n sensitif i lwch.

Gall gweithgareddau ar safleoedd adeiladu sydd â'r potensial i gynhyrchu llwch a gellir categorioedd allyriadau i bedwar math o weithgarwch:

- Dymchwel – unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â dileu strwythurau presennol ar y safle;
- Gwaith pridd - mae'n cynnwys prosesau stripio pridd, gwneud y tir yn wastad, cloddio a thirlunio;
- Adeiladu – unrhyw weithgareddau sy'n perthyn i ddarparu strwythurau newydd ar y safle;
- Tracio allan – cludo llwch a baw o rwydwaith y ffyrdd cyhoeddus lle y gellir ei ddyddodi a'i ailosod gan draffig sy'n defnyddio'r rhwydwaith.

Asesir y posibilrwydd o allyriadau llwch ar gyfer pob gweithgaredd sy'n debygol o ddigwydd, gan ddilyn proses pedwar cam er mwyn pennu'r risg o effeithiau. Amlinellir y pedwar cam gan y ffigwr isod, (a gymerir gan CCA Llundain) '[The Control of Dust and Emissions during Construction and Demolition](#)' (2014).



Allryiadau o gerbydau ar safleoedd adeiladu

Gall allyriadau o gerbydau adeiladu a pheiriannau nad ydynt yn symud ar y ffordd (NRMM) effeithio ar ansawdd lleol yr awyr yn ystod y cam adeiladu. Mae canllaw yr IAQM yn dweud ei bod yn bosibl y bydd gofyn am asesiad meintiol pan ddisgwylir i gynllun arwaith at newid o ran llif yr HDV ar ffyrdd lleol o 25 cerbyd fesul diwrnod cyfartalog blynyddol neu fwy ar neu ger Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr (AQMA).

Mesurau Lliniaru yn ystod Adeiladu

Mae nifer o fesurau lliniaru y gellir eu defnyddio i reoli llwch ac allyriadau a gynhrychir yn ystod adeiladu a felly'n lleihau'r niwsans a'r effeithiau ar iechyd dynol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.

Mae llwch adeiladu fel arfer yn ymateb yn dda i fesurau lliniaru cyhyd ag y caiff Cynllun Rheoli Lluch Ansawdd Awyr (AQDMP) ei weithredu. Bydd yr AQDMP yn ffurfio rhan o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ('CEMP') a gaiff ei baratoi cyn dechrau'r datblygiad.

Mae'n rhaid nodi pob gweithgaredd a lleoliad sy'n cynhyrchu llwch cyn dechrau gwaith ar y safle. Dylid rheoli llwch wrth y ffynhonnell trwy ddefnyddio technegau trin a thrafod priodol, cynnal a chadw da a chymhennu da. Argymhellir technegau lliniaru posibl yn nghanllaw yr

IAQM. Mae canllawiau ar arfer gorau yn gorchymyn y dylid lleihau effeithiau allyriadau NRMM a cherbydau trwy ddefnyddio cerbydau a pheiriannau sy'n eithaf newydd, sy'n cydymffurfio i safonau allyriadau diweddar ac a chânt eu cynnal a'u cadw'n dda.

All potential dust-generating activities and locations must be identified prior to commencement of work on site. Dust should be controlled at source by the use of appropriate handling techniques, good maintenance and good housekeeping.. Possible mitigation techniques are recommended in the IAQM guidance. Best practice guidance dictates that impacts of NRMM and vehicle emissions should be minimised by employing vehicles and plant machinery that are reasonably new, that conform to recent emission standards and that are well maintained.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at:

The Institute of Air Quality Management: Guidance on the assessment of dust from demolition and construction. <https://tinyurl.com/pbhc34u>

7. Gwastraff

O dan Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 'Mae gan unrhyw un sy'n cynhyrchu, yn mewnfario, yn cadw neu'n storio, yn cludo, yn trin neu'n gwaredu gwastraff, 'ddyletswydd gofal' i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwastraff yn ddiogel ac y caiff ei ddisgrifio', ddigonol pan gaiff ei drosglwyddo.

Gwaredu Gwastraff wedi'i Reoli

Mae'n rhaid i wastraff busnes a masnachol gael ei waredu gan 'Gludwr Gwastraff Cofrestredig, sy'n meddu ar Drwydded Rheoli Gwastraff.' Mae'n rhaid i berson sy'n cludo, ailgylchu a gwaredu gwastraff yng Nghymru fod wedi cofrestru â Cyfoeth Naturiol Cymru. Os mai contractwr preifat sy'n mynd â'ch gwastraff, dylech sicrhau ei fod yn gofrestredig trwy ofyn i weld eu Dystysgrif Cofrestriad Gwastraff neu wirio ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hefyd, mae'n rhaid cwblhau **Nodyn Trosglwyddo Gwastraff** ar gyfer pob llwyth o wastraff a fydd yn gadael eich safle.

Storio

Dylid storio gwastraff mewn cynwysyddion addas sy'n gwrthsefyll y tywydd er mwyn atal gwastraff rhag dianc ac erbyn atal pecynnau rhag chwythu i ffwrdd, ac yn gallu dal y gwastraff i mewn os digwydd damwain. Hefyd, dylid ei gadw'n ddiogel, er mwyn sicrhau, mor bell ag sy'n resymol ymarferol yr atelir mynediad gan fandaliaid, lladron ac anifeiliaid.

Gwastraff Peryglus

Mae'n rhaid i wastraff yr ystyrir sy'n beryglus gael ei symud i ffwrdd gan ddefnyddio gweithdrefnau nodyn cludlwyth Adran 62 "Gwastraff Arbennig". Mae'r rhain ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03708506506.

Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch ag adran gwastraff y Cyngor a/neu gontractwr gwastraff i gael cyngor. Gellir rhoi dirwy o hyd at £5,000 i droseddwr neu ddirwy annherfynol os caiff ei anfon i Lys y Goron.

Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth cyswllt ar gyfer Gwastraff ar Dudalen 13, Adran 9 y llawlyfr hwn.

Ni chaniateir, o dan UNRHYW amgylchiadau i gontractwyr, gweithwyr asiantaeth neu is-gontractwyr losgi gwastraff heblaw eu bod wedi cael Eithriad Gwastraff gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. Llygredd Tir

Mae'n bosibl y bydd eich safle wedi'i lygru gan llygryddion o ganlyniad i weithgareddau'r gorffennol, enwedig ar safleoedd tir llwyd. Mae llygryddion cyffredin yn cynnwys asbestos, hydrocarbonau (megis olew a thanwydd) a metelau trwm a hydoddyddion peryglus. Mae'n bosibl y byddant yn bresennol naill ai yn y ddaear neu yn y dŵr daear neu'r ddau. Ar unrhyw safle mae'n bwysig adnabod llygredd posibl cyn i chi ddechrau ar y gwaith oherwydd y gall eich gweithgareddau symud unrhyw lygredd ac achosi risg i iechyd dynol ac i'r amgylchedd. Mae angen i chi sicrhau nad yw eich gweithgareddau'n achosi llygredd yn y tir yn y dyfodol, yn enwedig os ydych yn trin a thrafod sylweddau peryglus. Os llygrwch y tir neu'r ddaear, mae'n bosibl y cewch eich erlyn ac mae'n bosibl y byddwch yn atebol i gostau glanhau. Os ystyrir eich safle yn dir llygredig, bydd gennych gyfrifoldebau o dan y gyfraith dros reoli'r llygredd a bydd angen i chi weithio'n agos iawn gyda GRhR neu adfer y safle er mwyn sicrhau nad yw'r tir yn risg i iechyd dynol neu i'r amgylchedd.

- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o unrhyw amodau neu ofyniadau cynllunio i ymchwilio neu adfer unrhyw lygredd tir.
- Cyn i waith ddechrau, nodwch unrhyw lygredd posibl ar y safle.
- Cysylltwch â ni er mwyn gweld a ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau llygru ar y safle.
- Mae'n bosibl yr ymgwymerwyd ag asesiad llygriad arbenigol, hyd yn oed os na ystyrir eich safle yn 'dir llygredig'; dylai hyn eich helpu i adnabod lleoliad unrhyw halogyddion a'r mesurau sy'n ofynnol i'w rheoli.
- Ceisiwch gyngor arbenigol ar ymdrin â llygriad, os oes gofyn, e.e. gan ymgynghorydd sydd â phrofiad a brofwyd o ran asesu ac adfer safleoedd llygredig.
- Sicrhewch eich bod yn gweithio yn ôl strategaeth adfer y cytunir arni ar gyfer ymdrin â llygriad.
- Cysylltwch â'ch awdurdod lleol er mwyn trafod eich dulliau arfaethedig ar gyfer ymdrin â halogyddion.
- Sicrhewch eich bod yn gweithio yn ôl dulliau y cytunwyd arnynt er mwyn atal llygredd.
- Sicrhewch fod gennych gynllun digwyddiad/argyfwng ar gyfer ymdrin â digwyddiadau ar y safle megis gwastraff yn cael ei ollwng.
- Os dewch o hyd i lygru annisgwyl ar y safle, dylech ddod â'r gwaith i ben a cheisio cyngor gennym ni.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â llygru ar eich safle chi, ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Arbenigol ar [0300 123 6696](tel:03001236696). Ar gyfer materion sy'n perthyn i lygru mewn dŵr a reolir, cysylltwch â CNC ar [0300 065 3000](tel:03000653000).

I gael arweiniad mwy manwl ar reoli llygriad tir, cyfeiriwch at y canlynol [Development of Land Affected by Contamination: A Guide for Developers](#), sydd ar gael ar wefan GRhR.

9. Gwybodaeth cyswllt

Llygredd, Sŵn, Ansawdd yr Awyr a Thir Llygredig (24 awr):

[030 0123 6696](tel:03001236696)

enquiries-SRSWales@valeofglamorgan.gov.uk

Ar gyfer pob ymholiad arall, cysylltwch â phob Cyngor unigol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

[01656 643643](tel:01656643643)

talktous@bridgend.gov.uk

Cyngor Caerdydd

[029 2087 2087](tel:02920872087)

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Home/Contact-us/General-enquiries/Pages/default.aspx>

The Vale of Glamorgan Council

[01446 700111](tel:01446700111)

C1V@valeofglamorgan.gov.uk

CNC: [0300 065 3000](tel:03000653000)

HSE: [0300 003 1747](tel:03000031747)

Atodiad A

Arweiniad ar gwblhau'r cais Adran 61 am gydsyniad ymlaen llaw

1. Cyfeiriad neu leoliad y gwaith arfaethedig

Cyfeiriad/leoliad safle'r gwaith. Dylid cynnwys cynllun lleoliad y safle i raddfa heb fod yn llai na 1:1250

2. Enw a chyfeiriad y prif gontractwr

Enw a chyfeiriad y cwmni (Swyddfa Gofrestredig) yr Ymgeisydd. Dylid darparu enw a rhif ffôn (a'r cyfeiriad e-bost) cyswllt priodol (e.e. gan reolwr y safle).

3. Manylion y gwaith i'w wneud

Dylid darparu manylion y math o waith i'w wneud ar bob cam.

4. Dulliau i'w defnyddio ar bob cam y datblygiad

Dylid darparu datganiad o ddull y gwaith sydd dan sylw ar bob cam y project, gan gynnwys natur y gwaith a hyd pob cam. Dylai'r cais restru sut y caiff y gwaith ei wneud a rhoi cyfiawnhad amlinellol ar pam mae'r dulliau a ddewiswyd yn Fodd Ymarferol Gorau.

5. Oriau Gwaith

Dylid rhoi oriau gwaith ar gyfer pob dull neu gam y gwaith, a gall hyn gynnwys rhaglen sy'n rhoi manylion am weithrediadau gwaith i'w gwneud ar gylchoedd dyddiol (neu rai eraill)

6. Nifer, math a gwneuthuriad offer a pheiriannau gan nodi Lefel Pŵer y Sŵn

Rhestr lawn o beiriannau ac offer y cynigir eu defnyddio. Dylid cynnwys lefelau pŵer ar gyfer pob darn o offer. Gellir cael lefelau pŵer y sŵn o arweiniad a gynigir gan Safon Prydeinig 5228 neu o ffynonellau priodol eraill, e.e. manylebau gweithgynhyrchwyr.

7. Camau arfaethedig er mwyn lleihau sŵn a dirgrynu.

Dylid nodi defnydd modd ymarferol gorau, (BPM) bob amser, manylion o'r mesurau BPM penodol i'w defnyddio (gweler Safon Prydeinig 5228 i gael arweiniad).

8. Lefelau sŵn a dirgrynu a ragwelir

Dylid rhagweld lefelau sŵn mewn lleoliadau a nodir ar Gynllun y Safle ac, yn benodol, ar "ddibynyddion sensitif" a nodir y tu hwnt i ffin y safle. Bydd "Derbynyddion Sensitif" yn cynnwys preswylwyr, ysgolion, ysbytai, addoldai a busnesau sy'n arbennig o sensitif i sŵn.

9. Amcangyfrif o hyd y gwaith

Dylai'r cais restru hyd y project gan gynnwys y dyddiad dechrau a'r dyddiad cwblhau a ragwelir. Also an indicative Construction Programme, showing the duration of each phase of work should be provided, where possible, acknowledging that the programme may be subject to change.

10. Person i gysylltu ag ef os oes cwyn

Dylid cynnwys mesurau ymgysylltu a hysbysu, megis cylchlythyr a dosbarthu llythyron i'r holl rai yr effeithir arnynt, a gosod llinell gymorth ar y ffôn ar gyfer cwynion

(Ile y bo'n briodol) yn y cais oherwydd y gall cysylltiadau cyhoeddus da leihau gwrthdrawiadau posibl rhwng preswylwyr a chontractwyr.

11. Derbynyddion preswyl agosaf

Adnabod ardaloedd preswyl o sy'n agos i'r safle y mae'n bosibl yr effeithir arnynt yn niweidiol. Dylid cynnwys mesurau ymgysylltu a hysbysu, megis cylchlythyr a dosbarthu llythyron i'r holl rai yr effeithir arnynt, a gosod llinell gymorth ar y ffôn ar gyfer cwynion (Ile y bo'n briodol) yn y cais oherwydd y gall cysylltiadau cyhoeddus da leihau gwrthdrawiadau posibl rhwng preswylwyr a chontractwyr. Hefyd unrhyw leoliadau monitro arfaethedig.

12. Cynllun y Safle

Dylid cynnwys mapiau o'r safle a'r ardaloedd cyfagos sy'n mynd i gael eu datblygu.

13. Gwybodaeth arall

Gellir cynnwys enwau cyswllt, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost. Mae'n bosibl y bydd yr adran hon hefyd yn cyfeirio (er gwybodaeth yn unig) at fesurau rheoli eraill i ffwrdd o'r safle y bydd y project dan sylw o bosibl wedi ymrwymo iddynt, sy'n berthnasol i ddeall yr effeithiau tebygol ar bobl yn yr ardal.

14. Rhestr atodiadau

Dylid rhestru pob cynllun a dogfennau atodol. Argymhellir defnyddio atodiadau â rhifau.

Atodiad B

Ffurflen Gais ar gyfer Cydsyniad Adran 61

DEDDF RHEOLI LLYGREDD 1974, Adran 61

Rhif y Cyflwyniad:

Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol:

I'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

RWYF I/RYDYM NI TRWY HYN YN GWNEUD CAIS am gydsyniad ymlaen llaw o ran gwaith i'w wneud

ar y safle a nodir yn adran 1 isod, o dan Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974.

Llofnod Dyddiad

MANYLION YR YMGEISYDD:

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdig:

Cod Post:

Ffôn:

E-bost:

Diddordeb yr ymgeisydd yn y safle:

| | |
|--|--|
| 1. Cyfeiriad y gwaith arfaethedig a chynllun y lleoliad | |
| 2. Enw a chyfeiriad y prif gontractwr. | |
| 3. Manylion o waith i'w wneud, gan gynnwys unrhyw weithredoedd gosod pyst seiliau, gwaith dymchwel, mathru concrit a gwaith sgrinio, arllwys concrit ac arnofio pŵer | |
| 4. Dulliau i'w defnyddio ar bob cam y gwaith | |
| 5. Oriau Gwaith A ragwelir y bydd unrhyw sefyllfaoedd lle yr ymgwymerir â gwaith y tu allan i oriau gwaith 'arferol'? Os felly, darparwch resymwaith/gyfiawnhad cadarn ar gyfer unrhyw waith y mae angen ei wneud y tu allan i oriau gwaith 'arferol' a'r oriau gwaith arfaethedig | |
| 6. Nifer, math a gwneuthuriad y peiriannau (gan gynnwys cerbydau trwm), gan ddatgan Lefelau Pŵer Sŵn. | |

Tabl 6.1 Rhestr Lawn y Peiriannau – gan gynnwys nifer a math y cywasgyddion/ goleuadau traffig dros dro i'w defnyddio

| |
|--|
| |
|--|

| |
|-------------------|
| Tabl 6.1 (parhad) |
| |

| | |
|---|--|
| 7. Camau arfaethedig i leihau sŵn a dirgrynu/ modd ymarferol gorau i'w ddefnyddio er mwyn rheoli sŵn | |
| 8. Lefelau sŵn a dirgrynu a ragwelir | |
| 9. Amcangyfrif o hyd y gwaith – gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen | |
| 10. Person i gysylltu ag ef os oes cwyn | |
| 11. Adnabod derbynyddion preswyl agosaf a chamau arfaethedig i sicrhau na effeithir ar breswylwyr yn niweidiol gan sŵn a dirgrynu, gan gynnwys unrhyw leoliadau monitro arfaethedig | |
| 12. Cynllun y Safle | |
| 13. Gwybodaeth arall | |
| 14. Rhestr o Gynlluniau a dogfennau atodol | |

